



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Penllwyn
Y Cabin
Penllwyn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3LP**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2018

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Penllwyn sy'n cwrdd mewn caban ar safle Ysgol Gynradd Penllwyn, yng Ngheredigion. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy i bedair oed mewn sesiynau o bedair awr am bum bore bob wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 19 o blant fesul sesiwn. Mae 19 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda 9 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw prif iaith y cartref llawer o blant y lleoliad.

Mae tri aelod o staff cymwysedig yn gweithio yn y lleoliad, gyda dau ohonynt yn rhannu dyletswyddau arweinyddiaeth ers mis Medi 2015.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mawrth 2017 a chan Estyn ym mis Mawrth 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau dysgu annibynnol effeithiol
- medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n llwyddiannus
- bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus iawn yno
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais
- ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau dysgu buddiol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn briodol
- perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i sefydlu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at wireddu amcanion
- arweinwyr yn defnyddio arweiniad a chyngor asiantaethau allanol yn fedrus er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau
- aelodau'r pwyllgor yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith y lleoliad
- gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn adnabod llawer o gryfderau a meysydd i'w gwella yn llwyddiannus
- ystod o bartneriaethau buddiol yn cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus
- perthynas waith gref rhwng y staff a'r rhieni yn sicrhau eu bod yn barod iawn i gefnogi'r lleoliad
- arweinwyr a'r pwyllgor yn rheoli adnoddau yn effeithlon

Argymhellion

- A1 Cynllunio'n fwrriadus i adeiladu ar wybodaeth a medrau plant trwy weithgareddau cyfoethogi effeithiol
- A2 Sicrhau defnydd mwy effeithiol o arsylwadau ac asesiadau er mwyn bodloni anghenion dysgu plant
- A3 Mireinio'r adroddiad hunanarfarnu i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n glir ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a lles y plant

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn gan ddatblygu medrau dysgu annibynnol effeithiol. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig ac yn barod i arbrofi ac ymchwilio dros eu hunain gan ddefnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn barod i fentro ac i ddatrys problemau yn annibynnol heb gymorth oedolyn.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn gwrando'n ofalus ar storïau ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys. Mae rhan fwyaf y plant yn ymateb yn briodol i gwestiynau'r ymarferwyr yn ystod y gweithgareddau dysgu ac wrth ddilyn cyfarwyddiadau cyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf yn canu caneuon cyfarwydd yn frwdfrydig gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r eirfa, er enghraifft wrth ganu am ddyddiau'r wythnos. Mae'r siaradwyr Cymraeg hyderus yn defnyddio ystod o eirfa a chystrawen naturiol wrth drafod eu gwaith gydag oedolion. Mae rhan fwyaf y plant yn dod o hyd i'w henwau heb gymorth ac yn eu gosod ar y siart teimladau yn llwyddiannus. Maent yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a phensiliau lliw. Mae gan blant mwyaf abl reolaeth gadarn o bensiliau er mwyn dilyn siâp llythrennau a phatrymau syml. Mae ychydig ohonynt yn medru ysgrifennu eu henwau a geiriau syml yn llwyddiannus.

Mae medrau rhif rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae llawer yn adrodd rhifau hyd at 10 yn hyderus ac yn cyfateb rhif a gwrthrychau'n llwyddiannus. Mae plant mwyaf abl yn cyfri hyd ac ugain ac mae ychydig yn medru adio dau rif un digid yn llwyddiannus gan gofnodi'r atebion ar bapur. Mae llawer o'r plant yn dechrau adnabod siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd yn llwyddiannus. Maent yn dilyn patrymau syml yn gadarn wrth osod lliwiau mewn trefn.

Mae gan lawer o'r plant fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) priodol. Maent yn dechrau defnyddio tegan rhaglenadwy yn llwyddiannus i symud o un gwrthrych i'r llall. Maent yn defnyddio llechen gyfrifiadurol yn addas i gefnogi eu dysgu, er enghraifft wrth wneud llun syml ac i dynnu lluniau o'i gilydd.

Mae gan lawer o'r plant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn cydbwysu'n fedrus wrth gamu o un bloc i'r llall ac wrth sefyll ar un goes. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel brwshys paent, sialc a chreonaau.

Lles: Da

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus iawn yno. Maent yn ymdawelu'n brydlon ar ôl cyrraedd ac yn fodlon yng nghwmni eu cyfoedion a'r ymarferwyr. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu ac arfer hunanreolaeth yn dda.

Mae bron pob un yn dewis gweithgareddau'n annibynnol ac yn mwynhau cymryd rhan yn yr holl brofiadau dysgu sydd ar gael iddynt. Mae rhan fwyaf y plant yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn defnyddio'u gwybodaeth yn briodol i ddatrys problemau tebyg, er enghraifft wrth gyfri nifer y bechgyn a merched sy'n bresennol.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau dysgu annibynnol da, er enghraifft wrth wisgo a dadwisgo cotiau a golchi dwylo cyn bwyta. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn dyfalbarhau ar wahanol dasgau a gweithgareddau yn llwyddiannus. Mae llawer yn trafod eu gwaith gyda'i gilydd ac oedolion yn frwdfrydig ac yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau 'helpwr y dydd' yn hyderus, er enghraifft wrth weini dŵr a llaeth i'w cyfoedion yn ystod amser byrbryd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rhan fwyaf y plant yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn gwrtais wrth eistedd gyda'u cyfoedion ac yn dysgu dweud 'diolch' wrth gymryd lluniaeth. Mae bron pob un yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o hylendid da trwy olchi eu dwylo cyn bwyta. Mae bron pob un yn dod â'u ffrwythau eu hunain ar gyfer amser byrbryd ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Digionol

Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau dysgu buddiol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn briodol. Maent yn ystyried diddordebau'r plant ynghyd â'u syniadau eu hunain wrth gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau dysgu gwerthfawr. Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n fuddiol i gyd-gynllunio cwricwlwm addas sydd yn cyfateb i egwyddorion a chwricwlwm y cyfnod sylfaen. Maent yn gwneud defnydd addas o ardaloedd pwrpasol tu fewn ac yn allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cefnogi cyfleoedd addas i blant ymchwilio a darganfod dros eu hunain ac i feithrin medrau dysgu annibynnol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus i adeiladu ar wybodaeth a medrau plant trwy weithgareddau cyfoethogi effeithiol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn addas. Maent yn sicrhau cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant trwy ystod o weithgareddau ac ymarferion rheolaidd. Er enghraifft, maent yn ymarfer ymatebion i gwestiynau cyfarwydd gyda'r plant yn ystod amser cofrestru ac amser cylch ac yn canu caneuon cyfarwydd yn ddyddiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus bob tro i ddatblygu medrau llafar y plant yn unol â'u gallu ieithyddol. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu'u medrau TGCh trwy ystod briodol o brofiadau dysgu diddorol, gan gynnwys defnyddio apiau ar lechen a rheoli tegan rhaglenadwy yn briodol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig, er enghraifft drwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu. Er enghraifft, maent wedi ymweld â chanolfan marchogaeth fel rhan o'u gwaith ar anifeiliaid. Mae'r plant hefyd yn ymweld ag Ysgol Penllwyn yn achlysurol i wylieo sioeau a chymryd rhan mewn achlysuron arbennig, er enghraifft i ddysgu am waith yr heddlu ac i gwrdd ag enwogion y byd rygbi. Mae'r ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ymweld â busnesau a sefydliadau lleol sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o fywyd pob dydd o fewn eu cymuned yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol, sy'n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o gefndir diwylliannol gwahanol. Er enghraifft, maent yn blasu bwyd a dawnsio dawns y ddraig fel rhan o weithgareddau a phrofiadau dysgu yn ymwneud â dathlu'r Flwyddyn Newydd Tseineidd.

Addysgu: Da

Mae'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr yn cyfrannu'n dda at greu awyrgylch o gydweithio a pharch tuag at ei gilydd. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i sefydlu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol sy'n annog ymglymiad a chyfranogiad plant yn llwyddiannus. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion yn rheolaidd ac yn rheoli ymddygiad mewn ffordd synhwyrol a sensitif. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio holi pwrpasol a chwestiynau agored i ddatblygu medrau iaith a meddwl y plant yn fedrus. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn briodol ac yn annog y plant i ymarfer ac ymestyn eu medrau iaith drwy ganu a sgwrsio â nhw yn gyson.

Yn gyffredinol, mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen a datblygiad plant. Maent yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blentyn a'r rheini a arweinir gan oedolion.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer asesu cynnydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn asesu man cychwyn y plant yn briodol ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio'n gadarn ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cofnodi arsylwadau o gynnydd y plant yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd a chynnig adborth buddiol i rieni. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer anghenion grwpiau penodol o blant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Un o brif gryfderau'r lleoliad yw'r ffordd mae ymarferwyr yn hyrwyddo lles plant yn effeithiol. Maent yn creu awyrgylch cartrefol a chroesawgar sy'n sicrhau bod bron pob un plentyn yn mwynhau eu hamser yno. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach yn effeithiol trwy weithgareddau fel amser byrbryd ac amser cinio. Trwy annog y plant i helpu gweini'r ddiod, maent yn datblygu eu hunanhyder a medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae hyn hefyd yn cyfrannu'n fuddiol at ddatblygu iaith y plant wrth ddysgu geirfa newydd a thrwy sgwrsio â'i gilydd ac oedolion yn anffurfiol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y plant, er enghraifft trwy annog y plant i drafod teimladau yn ystod 'amser cylch' a thrwy gyd-addoli cyn bwyta cinio. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo yn ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yn dilyn hyfforddiant diweddar a chysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd cyson i gael ymarfer corfforol. Mae profiadau dysgu effeithiol hyn ynghyd â'r defnydd gwerthfawr o'r ardal allanol pwrpasol yn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am gynaliadwyedd trwy ailgylchu gwastraff bwyd a phapur. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ofalu am y byd yn addas.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn ôl yr angen. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau arbenigol fel y therapydd iaith a lleferydd er mwyn cyflwyno rhaglenni pwrpasol i grwpiau penodol o blant.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan Gylch Meithrin Penllwyn amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a chroesawgar ar gyfer y plant. Mae'r ethos Cymreig yn gryf yn y lleoliad, ac yn rhan annatod o'r gwaith pob dydd. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu ac yn cael yr un chwarae teg. Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau pwrpasol sydd yn cefnogi egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ardaloedd dysgu yn ddeniadol ac wedi'u trefnu'n briodol er mwyn diwallu diddordebau'r plant ac i hybu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân. Mae arddangosfeydd lliwgar a deniadol yn dathlu gwaith a llwyddiannau'r plant yn effeithiol. Mae'r ardal allanol yn galluogi'r plant i fentro ac i ddarganfod dros eu hunain yn ogystal â datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn arbrofi yn y gegin fwd a thrwy chwarae rôl yn y gysgodfa natur a'r llong môr-ladron. Trwy blannu a thyfu llysiau yn yr ardal allanol, mae'r plant yn dysgu am fwydydd yn ogystal â sut i ofalu am blanhigion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y lleoliad ddwy ymarferwraig brofiadol sy'n rhannu dyletswyddau arweinyddiaeth a rheolaidd yn llwyddiannus. Maent yn rhannu nodau ac amcanion clir a phwrpasol sy'n gosod pwyslais cadarn ar sicrhau lles a chynnydd y plant. Mae'r arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth yn briodol gyda'r ymarferwyr eraill ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad a chynghor gan asiantaethau allanol yn fedrus er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at wireddu amcanion y lleoliad. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ethos gweithgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Erbyn hyn, mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr yn flynyddol. Mae hyn yn arwain at hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol sy'n diwallu anghenion ymarferwyr yn effeithiol, er enghraifft wrth gynnal hyfforddiant i ddatblygu medrau corfforol y plant ac i wella dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r cyfnod sylfaen.

Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu gweithredu. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth berthnasol gyson gan yr arweinwyr sy'n eu cefnogi i wneud penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â'r ddarpariaeth a chyllid. Mae'r pwyllgor yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith y lleoliad ac mae'r aelodau'n ymweld yn rheolaidd i

drafod materion gyda'r ymarferwyr. Maent yn cymryd eu rôl o ddifri ac yn weithredol iawn, er enghraifft wrth ymgeisio am grantiau yn rheolaidd er mwyn ychwanegu at y cyllid. Mae aelodau'r pwyllgor ynghyd â rhieni a ffrindiau'r lleoliad yn cyfrannu'n werthfawr i sicrhau bod yr adeilad a'r ardal allanol o ansawdd da ac yn bodloni gofynion y staff a'r plant. Maent hefyd yn helpu'r ymarferwyr i drefnu diwrnodau arbennig fel yr helpa wyau Pasg sy'n cael ei chynnal yn un o'r tair ysgol leol yn ei thro.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn ogystal â hybu lles a ffitrwydd.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r pwyllgor i sicrhau trefniadau buddiol o ran gwella ansawdd y lleoliad. Maent yn gweithredu'n brydlon ar unrhyw gyngor neu argymhelliad sy'n arwain at welliannau o ran y ddarpariaeth a chyflawniad y plant. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor yn rhannu'r un bwriad o greu darpariaeth o'r safon gorau i'r plant. Mae'r holl ymarferwyr yn agored i syniadau newydd, ac yn defnyddio gwybodaeth o gyrsiau hyfforddiant yn gyson. Mae gan y pwyllgor a'r person cofrestredig wybodaeth gyfredol am waith y lleoliad trwy gyfarfodydd rheolaidd ac ymweliadau cyson. O ganlyniad, maent yn gallu cynnig cefnogaeth briodol yn ôl yr angen.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o weithdrefnau'r awdurdod lleol er mwyn cynnal hunanarfarniad ffurfiol yn flynyddol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfle gwerthfawr i'r rhieni rannu eu sylwadau trwy holiaduron a nosweithiau agored. Mae'r pwyllgor a'r person cofrestredig yn cyfrannu'n fuddiol i'r broses gan gefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol. Mae adroddiad cyfredol y lleoliad yn adnabod llawer o flaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella'n llwyddiannus ac mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu. Er hyn, nid yw'r adroddiad bob tro'n ddigon arfarnol nac yn canolbwyntio'n ddigon effeithiol ar werthuso safonau plant ac ansawdd yr addysgu. Mae'r cynllun gwella'n nodi amcanion clir sy'n canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau plant yn ogystal â chyfoethogi'r ddarpariaeth a phartneriaethau. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau priodol, camau gweithredu, terfynau amser ynghyd â chyfrifoldebau a meini prawf llwyddiant. Mae gwerthusiadau buddiol o gynlluniau blaenorol yn dangos cynnydd parhaol, er enghraifft wrth wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hybu lles a ffitrwydd y plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae'r cyswllt agos ag ysgolion cyfagos yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn trefnu digwyddiadau a diwrnodau arbennig gyda'r ysgolion hyn er mwyn datblygu cysylltiadau cymunedol effeithiol. Mae athrawon Ysgol Gynradd Penllwyn yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i gefnogi sesiynau canu ac i ddod i adnabod y plant. Mae'r holl drefniadau hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo cadarn sy'n sicrhau bod y plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n fuan ar eu cyngor ac arweiniad sy'n cyfrannu'n dda at wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae'r berthynas waith gref rhwng y staff a'r rhieni yn sicrhau eu bod yn barod iawn i gefnogi'r lleoliad, er enghraifft trwy drefnu gweithgareddau codi arian a thrwy wella'r amgylchedd dysgu. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod rhieni'n cael cyfleoedd da i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ymarferwyr yn gynnar iawn. Trwy lenwi holiaduron diweddar, mae rhieni'n dechrau cynnig eu sylwadau a'u barnau ar y lleoliad yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol er mwyn hysbysu rhieni am waith a digwyddiadau'r lleoliad yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â'r siop leol i ddysgu am waith pobl sy'n eu helpu. Yn ogystal, mae rhieni ac aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r leoliad er mwyn rhannu eu profiadau gyda'r plant. Er enghraifft, mae milfeddyg a ffermwyr yn helpu'r plant i ddysgu am sut i ofalu am anifeiliaid.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Maent yn gwneud defnydd da o'u profiad a'u harbenigedd er mwyn cefnogi'r plant yn llwyddiannus. Mae systemau rheoli perfformiad priodol yn cefnogi datblygiad y staff yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu hyfforddiant ac i ymweld ag arfer dda mewn lleoliadau eraill er mwyn datblygu eu gwybodaeth a medrau addysgu, er enghraifft i ddatblygu trefniadau asesu.

Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy'n ymateb i ofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae gan swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth gadarn o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn blaenoriaethu'r cyllid yn briodol ac yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau cyllid digonol i'r lleoliad, er enghraifft trwy ymgeisio am grantiau ariannol a chodi arian trwy drefnu gweithgareddau codi arian yn y gymuned.

Mae deilliannau'r plant ynghyd ag ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg